Become a Peer Inspector in primary schools

About the role

We are currently recruiting candidates to become Peer Inspectors who are senior leaders in primary schools, or who support primary schools as a local authority improvement partner.

Peer Inspectors are a key part of our inspection teams. On successful completion of the Peer Inspector training and once deployed, you will:

- be a full member of the inspection team;
- use your knowledge, skills and experience to contribute to the team's overall appraisal of the school's work;
- help the team form its evaluations of teaching, learning, well-being and leadership;
- hold discussions with pupils and staff, undertake teaching and learning observations and scrutinise pupils' work;
- gather evidence and create evaluative bullet points that support the formulation of the final report.

Being a peer inspector is an excellent professional learning opportunity that allows you to learn from other providers and contribute to raising standards in teaching and learning across Wales.

Eligibility

You'll inspect through the medium of English and/or Welsh, and will have:

- at least two years' experience in a senior leadership role, (Headteacher, Deputy Headteacher, Assistant Headteacher);
- at least 5 years' teaching experience;
- support from your Headteacher, Chair of Governors or the chief education officer.

You must currently be working in a primary school to be eligible, or supporting primary schools as an officer for a local authority or regional consortium. We'd particularly encourage those working in Welsh medium schools to apply.

If you've applied to become a Peer Inspector before but have not been invited to the training, we'd be happy to consider a new application. Usually, we aim to allocate a proportion of training places to schools that do not currently have peer inspectors.

Selection and training

The training will be available in English and Welsh and will include:

- **Pre-training activity:** a reading list you must complete before you attend the training.
- **Part one:** Online meeting on **Friday, 5 February 2027**
- **Part two:** Two days of face-to-face professional learning and assessments on **Tuesday**, **16 & Wednesday, 17 March 2027**
- **Probationary inspection(s):** You'll be deployed on an assessed inspection, and the lead inspector will grade your performance. You need an A or B grade to pass.

Peer Inspector training is free of charge, and we'll pay for your travel and subsistence and accommodation (if you're eligible) in line with our travel and subsistence policy.

Endorsement

In order to attend training and, if successful, attend inspections we must receive an endorsement from your employer. This must be received **in advance** of the training or you will be unable to attend. An email will be sent to the contact you shared in your application.

Disclosure and Barring Service check

To move on to the assessed inspection, you must complete the written assessments successfully and have a valid Disclosure and Barring Services (DBS) Enhanced certificate. The certificate must be less than three years' old and include the Child workforce category. Once we've received your certificate, our Planning and Deployment team will be in touch with details of the assessed inspection. On the inspection, the lead inspector will assess your work and will give you a grade at the end of the inspection week.

We'd recommend that you apply for a DBS as soon as you pass part 2 - these certificates can take up to six weeks to be issued. Once you've received your DBS, or if you have one already, please send a scanned copy to dbschecks@estyn.gov.wales and include the name and date of the training so that we can check it meets our requirements. **You will not be deployed or considered as having fully passed the training until your certificate has been received.**

Deployment

We usually deploy peer inspectors around once a year or once every two years. A few peer inspectors are deployed more often. When you're on inspection, we'll pay a flat rate contribution to your school for supply cover. We'll also cover your travel and subsistence costs.

Every year, we invite all Peer Inspectors to attend update training in the summer term; you must attend this training to carry on as a peer inspector. There's no charge for the training, but we're not able to pay supply cover or travel and subsistence costs. Your DBS certificate must be up to date to attend.

How to apply

Online application form: https://www.smartsurvey.co.uk/s/DNAO4G/
Closing date: 5pm Monday, 7 December 2026.

We'll contact everyone with the result of their application by **w/c 14 December 2026.**

Any fields marked with * are mandatory, so you won't be able to submit the form without entering a response for these fields. If they don't apply to you, please enter 'N/A'.

Contact details

This pack contains all the information about the role and the application process, but if you have any questions, please email us at events@estyn.gov.wales or call us on 029 2044 6510.

We look forward to receiving your application.

Dewch yn Arolygydd Cymheiriaid yn y sector cynradd

Ynglŷn â'r rôl

Rydym yn recriwtio ymgeiswyr ar hyn o bryd i ddod yn Arolygwyr Cymheiriaid sy'n uwch arweinwyr mewn ysgolion cynradd, neu'n cefnogi ysgolion cynradd fel swyddogion awdurdod neu consortiwm.

Mae Arolygwyr Cymheiriaid yn rhan allweddol o'n timau arolygu. Os byddwch chi'n cymhwyso i fod yn Arolygydd Cymheiriaid, byddwch:

- yn defnyddio eich gwybodaeth a medrau yn ystod teithiau dysgu ac wrth arsylwi gwersi, siarad gyda dysgwyr a chraffu ar enghreifftiau o'u gwaith;
- yn cael trafodaethau â rhieni a staff addysgol;
- yn defnyddio eich arsylwadau i ddrafftio rhannau o'r adroddiad arolygu fel rhan o weithgarwch y tîm arolygu.

Mae bod yn arolygydd cymheiriaid yn gyfle dysgu proffesiynol ardderchog i weld arfer effeithiol lle mae'n digwydd bob dydd a mynd â'r enghreifftiau hyn yn ôl i'ch darpariaeth chi i gefnogi gwelliant.

Cymhwysedd

Byddwch yn arolygu trwy gyfrwng y Gymraeg a/neu'r Saesneg a bydd gennych:

- o leiaf ddwy flynedd o brofiad mewn rôl uwch arweinyddiaeth (pennaeth, dirprwy bennaeth, pennaeth cynorthwyol);
- o leiaf 5 mlynedd o brofiad addysgu;
- cefnogaeth gan eich pennaeth, Cadeirydd y Llywodraethwyr neu'r prif swyddog addysg.

Rhaid i chi fod yn gweithio mewn ysgol gynradd i fod yn gymwys, neu yn cefnogi ysgolion cynradd fel swyddog awdurdod neu consortiwm. Byddem yn annog yn arbennig i'r rhai sy'n gweithio mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg wneud cais.

Os ydych wedi gwneud cais i fod yn Arolygydd Cymheiriaid o'r blaen ond heb gael eich gwahodd i'r hyfforddiant, byddem yn fodlon ystyried cais newydd. Fel arfer, ein nod yw dyrannu cyfran o'r lleoedd hyfforddiant i ysgolion nad oes ganddynt arolygwyr cymheiriaid ar hyn o bryd.

Dethol a hyfforddiant

Bydd yr hyfforddiant ar gael yn Gymraeg a Saesneg a bydd yn cynnwys:

- **Gweithgaredd cyn-hyfforddiant:** rhestr ddarllen y mae'n rhaid i chi ei chwblhau cyn i chi fynychu'r hyfforddiant.
- **Rhan un:** Cyfarfod arlein ar **ddydd Gwener, 5 Chwefror 2027**.
- **Rhan dau:** Dau diwrnod o hyfforddiant ac asesiadau ar **ddydd Mawrth, 16 a dydd Mercher, 17 Mawrth 2027**.
- **Arolygiad(au) prawf:** Byddwch yn cael eich lleoli mewn arolygiad wedi'i asesu a bydd yr arolygydd arweiniol yn graddio eich perfformiad. Bydd angen gradd A neu B arnoch i lwyddo.

Mae hyfforddiant Arolygwyr Cymheiriaid yn rhad ac am ddim a byddwn yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth a llety (os ydych yn gymwys), yn unol â'n polisi teithio a chynhaliaeth.

Cymeradwyaeth

Er mwyn mynychu hyfforddiant ac, os yn llwyddiannus, mynychu arolygiadau, mae'n rhaid i ni derbyn cymeradwyaeth gan eich cyflogwr. Rhaid derbyn hwn **cyn** yr hyfforddiant neu ni fyddwch yn gallu mynychu. Bydd e-bost yn mynd at y cyswllt rydych chi wedi'i rannu yn eich cais.

Gwiriad y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd

I symud ymlaen i'r arolygiad asesedig, mae'n rhaid i chi gwblhau'r asesiadau'n llwyddiannus a chael tystysgrif Uwch ddilys gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG). Rhaid i'r dystysgrif fod yn llai na thair blynedd oed ac yn cynnwys y categori Gweithlu Plant. Unwaith y byddwn wedi derbyn eich tystysgrif, bydd ein tîm Cynllunio yn cysylltu â chi gyda manylion yr arolygiad asesedig. Yn ystod yr arolygiad, bydd yr arolygydd arweiniol yn asesu eich gwaith ac yn rhoi gradd i chi ar ddiwedd wythnos yr arolygiad.

Rydym yn argymell eich bod yn gwneud cais am dystysgrif GDG cyn gynted ag y byddwch wedi pasio rhan 2 – gall gymryd hyd at chwe wythnos i'r dystysgrif gael ei chyhoeddi. Unwaith y bydd gennych eich GDG, neu os oes un gennych eisoes, anfonwch gopi wedi'i sganio at dbschecks@estyn.gov.wales a chynnwys enw a dyddiad yr hyfforddiant fel y gallwn wirio ei fod yn bodloni ein gofynion. **Ni fyddwch yn cael eich defnyddio nac yn cael eich ystyried fel eich bod wedi pasio'r hyfforddiant yn llawn nes bod eich**

tystysgrif wedi'i derbyn.

Lleoli

Rydym fel arfer yn lleoli arolygwyr cymheiriaid tuag unwaith y flwyddyn neu unwaith bob dwy flynedd. Caiff ychydig o arolygwyr cymheiriaid eu lleoli'n amlach. Pan fyddwch yn cymryd rhan mewn arolygiad, byddwn yn talu cyfraniad cyfradd unffurf i'ch ysgol ar gyfer athro llanw. Byddwn hefyd yn talu eich costau teithio a chynhaliaeth.

Bob blwyddyn, rydym yn gwahodd pob Arolygydd Cymheiriaid i gymryd rhan mewn hyfforddiant diweddaru yn ystod tymor yr haf; rhaid i chi gymryd rhan yn yr hyfforddiant hwn i barhau i fod yn arolygydd cymheiriaid. Nid oes cost ar gyfer yr hyfforddiant ond ni allwn dalu am athrawon llanw na chostau teithio a chynhaliaeth. Rhaid i'ch tystysgrif GDG fod yn gyfredol i fynychu.

Sut i wneud cais

Ffurflen gais ar-lein: https://www.smartsurvey.co.uk/s/DNAO4G/
Dyddiad cau: 5yh Dydd Llun, 7 Rhagfyr 2026.

Byddwn yn cysylltu â phawb â chanlyniad eu cais erbyn yr **wythnos sy'n dechrau ar 14 Rhagfyr 2026.**

Mae unrhyw feysydd sydd wedi'u marcio â * yn orfodol, felly ni fyddwch yn gallu cyflwyno'r ffurflen heb roi ymateb yn y meysydd hyn. Os nad ydynt yn berthnasol i chi, rhowch 'Ddim yn berthnasol'.

Manylion cyswllt

Mae'r pecyn hwn yn cynnwys yr holl wybodaeth am y rôl a'r broses ymgeisio, ond os oes gennych unrhyw gwestiynau, anfonwch neges e-bost atom yn digwyddiadau@estyn.llyw.cymru neu ffoniwch ni ar 029 2044 6510.

Edrychwn ymlaen at dderbyn eich cais.